

CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL

Cadeirydd: Gari Jones

Nos Lun Mai 8fed 2017 am 7.30 y.h.

Cofnodion

a) Croesawyd atom Steven Teale, cafwyd wybod ganddo fod yr amserydd ar y blychau talu ar y toiledau wedi cael ei newid ac y byddent yn cloi rhwng hanner nos a thri o'r gloch y bore yn unig.

1. **Croeso:**

Croesawyd Gerallt Jones fel Cynghorydd o'r newydd hefyd y Cynghorydd Sirol newydd Garffild Lewis.

2. **Ffurflenni Derbyn Swydd:**

Cwblhawyd y ffurflen derbyn swydd gan oll o'r Cynghorwyr.

3. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Dewi Evans.

4. **Presennol:** Cyng. Gari Jones, Gerallt Jones, Alun Owen, Edmund Rees, Gwynfor Roberts, Paul Weston, Cynghorydd Sirol Garffild Lewis ac Enid Williams (Clerc)

5. **Cod Ymddygiad:** Neb yn datgan diddordeb.

6. **Cofnodion mis Ebrill** cynigiwyd yn gywir gan Edmund Rees gyda Paul Weston yn eilio.

7. **Materion y Codi o'r Cofnodion:-**

7.1. Gwaith cynnal – ar ôl ail edrych ar y gwaith cynigiodd Gwynfor Roberts wneud ychydig o waith angenrheidiol ar y ffrâm.

7.2. Yswirio'r diffib ar cabinet – wedi ei ychwanegu i'r polisi.

8. **Gohebiaeth.**

8.1. Cyng. Sirol Dilwyn Roberts – diolch am y gefnogaeth a gafodd tra yn ein cynrychioli.

9. **Monitro'r Gyllideb:**

Ar ôl archwilio'r Gyllideb ac ar gynigiad Alun Owen gyda Gwynfor Roberts yn eilio a phawb yn gytûn derbyniwyd popeth yn gywir ac mewn trefn.

10. **Mantolen Ariannol 2016-17:**

Edrychwyd dros y fantolen yn fanwl ac yna ei derbyn fel un gyflawn gan Edmund Rees gyda Paul Weston yn eilio a phawb yn gytûn ac arwyddwyd gan y cadeirydd.

11. **Gair gan y Cyng. Garffild Lewis:**

Cafwyd gair gan y Cynghorydd Sirol a dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at y sialens sydd o'i flaen hefyd y bwriadu o gynnal 'Syrjeri' yn lleol.

12. **Unrhyw fater arall:**

12.1. Swyddfa Archwilio Cymru – angen gyrru llythyr arall yn gofyn am atebion.

12.2. Un Llais Cymru – cynigiodd Gwynfor Roberts gyda Edmund Rees yn eilio talu am i'r clerch fynd ar y Cwrs yn ymwneud a'r Cyfrifon a'r Archwilio yn Glasdir, Llanrwst.

13. **Dyddiad y cyfarfod nesaf nos Lun Mehefin 5ed 2017 am 7.30 y.h.**

Arwyddwyd _____ Dyddiad 05.06.17
Cadeirydd

